# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 196(v4)

## Enwebiadau ar gyfer cadeirydd pwyllgor (5 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor canlynol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

(i) Y Pwyllgor Deisebau

## Cwestiwn Brys (15 munud)

**Gofyn i'r Prif Weinidog:**

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar Brexit yn sgil y ffaith bod Cytundeb Ymadael yr UE-DU wedi cael ei gwrthod neithiwr yn Nhŷ'r Cyffredin?

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith Brexit ar y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a'r Gymraeg

(30 munud)

## 6 Dadl: Cyfnod 3 y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

(120 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y cafodd yr adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt eu rhestru yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 a gytunwyd gan y Cynulliad ar 6 Mawrth 2019.

**Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

Grŵp 1: Iaith sy’n niwtral o ran rhyw 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 16, 21

Grŵp 2: Penodi Ombwdsmon 44, 45

Grŵp 3: Ymchwilio i wasanaeth sy’n gysylltiedig ag iechyd: Adennill costau 30, 6, 8, 9

Grŵp 4: Archwilydd Cyffredinol: Gosod y cyfrifon ardystiedig 49

Grŵp 5: Cywiriadau drafftio 2, 7, 10, 12, 13

Grŵp 6: Ymchwiliadau ar ei liwt ei hun 3, 4, 14, 15, 19

Grŵp 7: Gwneud cwynion 5, 17, 18

Grŵp 8: Egwyddorion Nolan 46

Grŵp 9: Gweithdrefnau ymdrin â chwynion 47, 11, 48

Grŵp 10: Pwerau gwneud rheoliadau 20

Grŵp 11: Adolygu'r Ddeddf: 39, 40, 41, 42

Grŵp 12: Swyddogaethau'r Cynulliad 43

Grŵp 13: Trosolwg

**Dogfennau Ategol**

Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Rhestr o Welliannau wedi'u didoli

Grwpio Gwelliannau

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cyfoeth Naturiol Cymru

(60 munud)

**NDM6989** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru drwy ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013.

2. Yn cydnabod gwaith caled y staff rheng flaen yn y sefydliad ond yn deall eu hanfodlonrwydd a'u diffyg hyder yn y penderfyniadau a wneir gan uwch reolwyr, fel y caiff ei fynegi'n rheolaidd mewn arolygon staff ers sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.

3. Yn gresynu at fethiant systematig Cyfoeth Naturiol Cymru o ran pobl Cymru drwy nifer o sgandalau proffil uchel, gan gynnwys:

a) diffygion difrifol wrth ymdrin â chontractau pren, i'r graddau bod yr archwilwyr, Grant Thornton, wedi dweud eu bod mor ddrwg eu bod yn "dwysáu'r amlygiad i'r risg o dwyll";

b) 'cymhwyso' cyfrifon y sefydliad gan Swyddfa Archwilio Cymru am dair blynedd yn olynol, sy'n awgrymu bod ansicrwydd ynghylch a oedd y sefydliad wedi gweithredu o fewn y rheolau;

c) y dull anghyson y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain wrth benderfynu ymyrryd ar faterion o ddiddordeb cyhoeddus megis saethu ar dir cyhoeddus a dympio mwd niwclear.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn adolygiad/ymchwiliad annibynnol i fethiannau'r sefydliad ac ymchwilio i gynigion amgen ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru.

Grant Thornton – Natural Resources Wales – Governance of Timber Sales – 3 February 2019 (Saesneg yn unig)

Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Blynyddol a Cyfrifon 2015-16

Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17

Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle bwyntiau newydd:

Yn nodi casgliadau ac argymhellion yr adroddiadau gan:

a) Ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i adroddiad blynyddol a chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-2018 – Tachwedd 2018;

b) Grant Thornton – Cyfoeth Naturiol Cymru – Llywodraethu'r Gwaith o Werthu Pren – Chwefror 2019.

Yn croesawu penodi prif weithredwr a chadeirydd dros dro newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'u hymrwymiad i weithredu argymhellion y ddau adroddiad a gwella'r modd y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru ei reoli a'i lywodraethu.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 – Tachwedd 2018

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ym mhwynt 3, dileu "Yn gresynu at fethiant systematig Cyfoeth Naturiol Cymru o ran pobl Cymru drwy nifer o sgandalau proffil uchel" a rhoi yn ei le "Yn gresynu at nifer y methiannau proffil uchel yn Cyfoeth Naturiol Cymru".

**Gwelliant 3 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu adolygiad annibynnol er mwyn canfod a yw'n dal yn briodol i Gyfoeth Naturiol Cymru barhau i reoli'r ystâd goedwig fasnachol yng Nghymru ac ystyried unrhyw fodelau amgen posibl.

**Gwelliant 4 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru adnoddau priodol i gyflawni ei holl ddyletswyddau yn ddigonol.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6988** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Pwysigrwydd prentisiaethau: Pam mae angen pobl arnom sydd â chymwysterau crefftau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 06/03/2019 i'w hateb ar 13/03/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Addysg

**Hefin David** *Caerffili*

**1** OAQ53579

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu cyllid ysgolion?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**2** OAQ53576

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau fydd yn cael eu rhoi i ysgolion ym mis Ebrill ynghylch trafod hunanladdiad?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ53535

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau cynghorau yng Ngorllewin De Cymru i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**4** OAQ53552

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall rhieni fforddio costau sy'n gysylltiedig ag addysg eu plant?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**5** OAQ53556

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth i ddisgyblion ar y spectrwm awtistaidd mewn ysgolion?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**6** OAQ53561

**(e)**

Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru o ran sicrhau unffurfedd wrth bennu dyddiau HMS ar draws ysgolion yng Nghymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**7** OAQ53533

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysgu ieithoedd tramor yn ysgolion Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**8** OAQ53548

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau ysgolion ym Môn?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**9** OAQ53571

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o bwysau ariannol ar brifysgolion Cymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**10** OAQ53547

**(e)**

Sut y mae adran y Gweinidog yn cyfrannu at y thema allweddol 'uchelgeisiol ac yn dysgu', fel sydd wedi'i nodi yn Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**11** OAQ53580

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael i ysgolion Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**12** OAQ53551

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod gan ysgolion gyllid digonol?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**13** OAQ53546

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg y cyfnod sylfaen?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**14** OAQ53562

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fforddiadwyedd gweithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

15 OAQ53564

**(e)**

Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod ail don rhaglen addysg ac ysgolion yr 21ain ganrif yn darparu cyfleusterau sydd o fudd i'r gymuned ehangach yn Islwyn?

# Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ53568

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wardiau cymysg mewn ysbytai?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2 OAQ53566

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i daclo gordewrdra ymhlith plant a phobl ifanc ?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

3 OAQ53541

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

4 OAQ53559

**(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda gweinidogion eraill y llywodraeth ynghylch rôl teithio llesol o ran hybu iechyd a lles ar gyfer plant a phobl ifanc?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

5 OAQ53582

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau bwydo ar y fron?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ53554

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddefnyddio arfau diagnostig i asesu glowyr am arwyddion o niwmoconiosis?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OAQ53544

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal salwch yn ne Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

8 OAQ53573

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau i bobl â pharlys yr ymennydd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

9 OAQ53565

**(e)**

Pryd y bydd cynnyrch misglwyf yn cael eu cynnig am ddim i gleifion ledled y GIG?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OAQ53563

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y niferoedd sydd wedi manteisio ar frechiadau plant?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OAQ53555

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal iechyd meddwl yn y Gogledd?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

12 OAQ53539

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ymwybyddiaeth o ganser yr ofari?

**Hefin David** *Caerffili*

13 OAQ53550

Datganodd yr Aelod fuddiant

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl ifanc ag awstistiaeth yng Nghaerffili?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

14 OAQ53549

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau fasgwlaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

15 OAQ53572

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y broses gwynion yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n anfodlon â'r driniaeth a gawsant gan y GIG?